Hawdd ei Ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

Arian i gefnogi pobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau yn ystod Coronafeirws

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**COVID-19: Cefnogaeth i Unigolion o'r Gronfa Ymateb Brys**'.

**Ebrill 2020**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall nhw.



Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn ysgrifen glas trwm yn anodd i'w deall nhw. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.




Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 15.**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma......2**

**Y Gronfa Ymateb Brys......4**

Pwy sydd yn gallu gwneud cais?......5

Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?......6

**Sut i wneud cais......7**

Beth rydyn ni angen gennych chi......8

Beth sydd yn digwydd nesaf......10

Manylion banc......12

Help gyda'ch cais chi......12

**Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi......13**


Cwynion......14

**Geiriau anodd......15**

# Y Gronfa Ymateb Brys




Mae’r **Gronfa Ymateb Brys** yn rhoi arian i bobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau yn ystod yr argyfwng Coronafeirws.



Mae ar gyfer pobl sydd yn methu gwneud arian ar hyn o bryd oherwydd Coronafeirws.





Rydych chi’n gallu gwneud cais am hyd at £2500 o’r **Gronfa Ymateb Brys**.



Rhaid i’ch gwaith chi fod yn waith **sydd ddim yn gwneud** elw er mwy i chi allu defnyddio’r **Gronfa Ymateb Brys**. Mae hyn yn meddwl gwaith sydd yn cael ei wneud er lles pobl eraill, a dim i wneud arian.



Mae angen inni roi arian i bobl sydd ei angen e fwyaf. Er enghraifft, pobl sydd ddim wedi gallu cael help o gynlluniau eraill. Meddyliwch os ydych chi ei angen e os gwelwch yn dda.




Fe fyddwn ni’n dweud wrth bobl os ydyn nhw’n cael arian gan y **Gronfa Ymateb Brys** o fewn 3 wythnos i’r dyddiadau cau.



Mae’r **Gronfa Ymateb Brys** yn rhoi 1 taliad yn unig i bobl.

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais

Dyma enghreifftiau o bobl sydd yn gallu gwneud cais:



- Person crefftau



- Person sydd yn ysgrifennu



- Dawnsiwr



- Cerddor



- Rhywun sydd yn hyrwyddo Gigiau – rhywun sydd yn trefnu digwyddiadau celfyddydau neu gerddoriaeth
- Cynhyrchydd theatr



Os oes gennych chi swydd arall mae angen i chi weld os ydych chi’n gallu cael cefnogaeth oddi wrthyn nhw i ddechrau.

# Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?



- Pobl sydd ddim yn gweithio yn y celfyddydau



- Cyrff



- Pobl sydd ddim yn byw yng Nghymru



- Myfyrwyr



- Pobl sydd yn gweithio mewn addysg

# Sut i wneud cais



Mae **2** gyfle i wneud cais. Mae pobl yn gallu gwneud cais ar-lein. Efallai byddwch chi angen rhywun i'ch cefnogi chi.





Mae'r cyfle cyntaf i wneud cais yn agor ar **14 Ebrill 2020** ac yn cau ar **20 Ebrill 2020**.




Mae'r ail gyfle i wneud cais yn agor ar **28 Ebrill 2020**. Ac yn cau ar **6 Mai 2020**.



Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £2500. Os oes gennych chi anghenion ychwanegol efallai y byddwch chi'n gallu gwneud cais am fwy na hyn.




Darllenwch **dudalen 15** o'r '**Cwestiynau Cyffredin am y Gronfa Ymateb Brys**' am ragor o wybodaeth.



Dim ond os ydych chi'n cael trafferth nawr oherwydd Coronafeirws y dylech chi wneud cais.

# Beth rydyn ni ei angen gennych chi



Mae angen i chi lenwi'r ffurflen ar-lein. Rydyn ni hefyd angen:

**We will also need:**




## 1. Eich CV (Curriculum Vitae)

CV ydy dogfen sydd yn dweud wrthyn ni am eich sgiliau a'ch profiad chi.



**NEU** llythyr byr yn dweud wrthyn ni am eich gwaith chi. Dywedwch wrthyn ni:



- beth rydych chi'n ei wneud a rhagor o wybodaeth am eich gwaith chi




- sut mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar yr arian rydych chi'n ei gael o'ch gwaith celfyddydau chi



- am unrhyw arian arall rydych chi wedi ei gael gennym ni



- Am unrhyw help arall rydych chi'n gallu ei gael. Os nad ydych chi'n gallu cael unrhyw help arall, dywedwch wrthyn ni pam os gwelwch yn dda.

## 2. Enw a chyfeiriad e-bost canolwr



**Canolwr** ydy person rydych chi wedi gweithio iddyn nhw neu weithiwr proffesiynol sydd yn gwybod am eich gwaith chi yn y celfyddydau. Fe fyddwn ni hefyd yn gofyn iddyn nhw ddweud wrthyn ni amdanoch chi a'r gwaith rydych chi'n ei wneud.




## 3. Prawf bod gennych chi gyfrif banc yn eich enw chi

# Beth sydd yn digwydd nesaf



1. Llanwch ffurflen gais.

   Mae un ar gael yma https://arts.wales/cy/cronfa-ymateb-brys-i-unigolion#start. Os nad ydych chi'n gallu cael y ffurflen ar-lein e-bostiwch: grantiau@celf.cymru



   Atebwch bob cwestiwn mor llawn, clir a gonest ag yr ydych chi'n gallu. Hefyd anfonwch eich **CV** neu lythyr gyda'ch ffurflen gais chi.



2. Yna fe fyddwn ni'n e-bostio **ffurflen monitro cydraddoldebau** i chi. Ffurflen ydy hon rydyn ni'n ei defnyddio i weld os ydy ein gwasanaethau ni'n deg. Llanwch y ffurflen yma a'i hanfon hi yn ôl aton ni os gwelwch yn dda.



3. Fe fyddwn ni'n edrych ar eich gwybodaeth chi.



4. Efallai y byddwn ni'n cysylltu â'ch canolwr chi.




5. Fe fyddwn ni'n cysylltu â chi os ydyn ni angen gwybodaeth arall.



6. Os ydyn ni'n cytuno y dylech chi gael arian o'r Gronfa Ymateb Brys, fe fyddwn ni'n gofyn i chi lenwi ffurflen. Enw'r **ffurflen ydy Ffurflen Derbyn Dyfarniad a Manylion Banc**.





7. Pan fyddwn ni'n cael y ffurflen yma yn ôl gennych chi yna rydyn ni'n gallu eich talu chi.




8. Dydyn ni ddim angen rhagor o wybodaeth gennych chi ar ôl hyn. Er enghraifft, dydyn ni ddim angen unrhyw adroddiadau.



Fe fyddwn ni'n dweud wrth bobl os nad ydyn ni'n gallu rhoi arian iddyn nhw.




Fe fyddwn ni cysylltu â phawb o fewn 3 wythnos i'r dyddiad cau. Neu yn fwy cynnar os yn bosibl.



Fe fyddwn ni yn dweud wrth bobl os ydy pethau yn cymryd mwy o amser am ryw reswm.


## Manylion banc




- Dim ond i'ch cyfrif banc personol chi rydyn ni'n gallu talu'r arian.




- Dim ond i gyfrif banc yn y DU rydyn ni'n gallu talu'r arian.



- Fe fyddwn ni'n anfon yr arian yn syth i'ch cyfrif banc chi. Dydych chi ddim yn gorfod talu siec neu arian parod i mewn i'ch cyfrif banc chi.

## Help gyda'ch cais chi



Os ydych chi angen unrhyw help gyda'ch cais chi e-bostiwch ni ar: [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru)



Neu lanwch ffurflen help ar-lein yma: [https://arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni](https://arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni)




Neu anfonwch neges twitter aton ni: @Celf_Cymru

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi



Rydyn ni'n credu bod gan bobl yr hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os ydych chi eisiau dysgu rhagor am hyn ewch i'n gwefan ni os gwelwch yn dda: [https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth](https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth)




Oherwydd ein bod ni yn gorff cyhoeddus rhaid inni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn meddwl y bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth chi efallai yn cael ei weld gan bobl eraill.




Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar y wefan **Rhyddid Gwybodaeth**: [https://cy.ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/](https://cy.ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/)




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data)**. Mae hyn yn meddwl nad ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rannu heb eich caniatâd chi. Os nad oes deddf wedi cael ei thorri.




Mae'r gyfraith yma yn penderfynu sut rydyn ni'n cadw ac yn defnyddio gwybodaeth pobl.

# Cwynion



Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydyn ni'n delio â'ch cais chi, rydych chi'n gallu cwyno.




Ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda: [https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion](https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion)



Nodwch os gwelwch yn dda, dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r broses gwyno i apelio yn erbyn ein penderfyniad ni os nad ydyn ni'n rhoi arian i chi.

# Geiriau anodd

## Canolwr

Person rydych chi wedi gweithio iddyn nhw neu weithiwr proffesiynol sydd yn gwybod am eich gwaith chi yn y celfyddydau. Fe fyddwn ni'n gofyn iddyn nhw ddweud wrthyn ni eu bod nhw'n gwybod eich bod chi'n gwneud y gwaith rydych chi'n ddweud eich bod chi'n ei wneud.

## CV

Dogfen sydd yn dweud wrthyn ni am eich sgiliau a'ch profiad chi.